



Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas

Adroddiad Ymateb i Ymgynghoriad

Ynghylch y cynnig i:

- Newid ystod oedran Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas o 4-11 oed i 3-11 oed a sefydlu dosbarth meithrin sy'n cynnwys 48 o leoedd rhan-amser o fis Medi 2021
- Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas o 126 o leoedd i 210 o leoedd o fis Medi 2021.

Gellir trefnu bod y ddogfen hon ar gael mewn Braille.
Gellir trefnu bod gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.
Cysylltwch â ni ar 01446 760239 i drefnu hyn.

Cynnwys	Tudalen
Cefndir	3
Amlinelliad o'r broses ymgynghori	3
Ymatebion i'r ymgynghoriad	5
Casgliad	7
Atodiad A – Crynodeb o faterion allweddol a godwyd gan ymgynghoreion statudol a'r ymateb i'r materion hynny	8
Atodiad B – Crynodeb o sylwadau a gafwyd o blaid y cynnig	14
Atodiad C – Cwestiynau cyffredin	16
Atodiad D – Ymgynghori a fu gyda phobl ifanc	17
Atodiad E – Ymateb gan Estyn	20
Atodiad F- Cofnodion y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant	23

Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad, a gynhaliwyd rhwng 18 Mawrth 2019 a 3 Mai 2019, mewn ymateb i'r cynigion i newid ystod oedran Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas o 4-11 oed i 3-11 oed a sefydlu dosbarth meithrin sy'n cynnwys 48 o leoedd rhan-amser o fis Medi 2021.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r broses ymgynghori, yn darparu trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ac yn cynnig manylion pellach am y materion allweddol a sylwadau ffafriol a godwyd gan randdeiliaid.

Amlinelliad o'r broses ymgynghori

Roedd y prosesau ymgynghori'n dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, gan gydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Roedd y prosesau ymgynghori'n rhoi'r cyfle i ymgynghoreion penodedig ddysgu am y cynnig ac i'r corff llywodraethu glywed barn yr holl rai â buddiant er mwyn iddynt allu cael eu cymryd i ystyriaeth cyn bod unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud.

Cyhoeddi'r ymgynghoriad

Cynhaliwyd ymgynghoriadau ffurfiol trwy ddogfen ymgynghori a ffurflen ymateb a ddosbarthwyd yn electronig i ymgynghoreion rhagnodedig ac a gyhoeddwyd ar wefan Cyngor Bro Morgannwg ar 18 Mawrth 2019. Darparwyd dolen mewn neges e-bost ar gyfer yr ymgynghoreion hefyd, a honno'n mynd â hwy at wefan Cyngor Bro Morgannwg. Roedd copïau caled o'r ddogfen ymgynghori ar gael ar gais.

Mae cyhoeddi dogfen ymgynghori'n ganolog i'r broses ymgynghori ar gyfer ad-drefnu ysgolion ac fe'i rhagnodir gan Lywodraeth Cymru yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Roedd y ddogfen ymgynghori'n disgrifio'r cynnig a oedd yn cael ei ystyried, y rhesymeg dros y cynnig a manylion yr ymarfer ymgynghori. Roedd y ddogfen ymgynghori'n cynnwys ffurflen ymateb unigol hefyd. Hysbyswyd yr ymgynghoreion fod fersiwn ar-lein ar gael i'w chwblhau.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid fel rhan o'r broses ymgynghori

Cyflawnwyd gweithgarwch ymgysylltu ar gyfer y ddau ymgynghoriad ynghylch y cynnig ag ymgynghoreion rhagnodedig yn unol â'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

Fe ymgynghorwyd â'r grwpiau canlynol:

Staff (sy'n addysgu ac nad ydynt yn addysgu) yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas	Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas
Rhieni/Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas	Cyngor Cymuned Sain Nicolas gyda Thresimwn

Bwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg	Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar (PDBC) Bro Morgannwg
Aelodau Cynulliad (ACau) / Aelodau Seneddol (ASau) / Aelodau Rhanbarthol y Cynulliad	Cynghorwyr Lleol
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)	Comisiynydd y Gymraeg
Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG)	Ysgolion Cynradd ac Uwchradd cyfagos ym Mro Morgannwg
Estyn	Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canol De Cymru
Gweinidogion Llywodraeth Cymru	Undebau Llafur
Comisiynydd Lleol yr Heddlu a Throseddu	Cyfarwyddwyr Addysg – Pob Awdurdod Cyfagos
Adran Drafnidiaeth y Cyngor	Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol

Tabl 1 – Rhestr o'r grwpiau i ymgynghori â hwy fel rhan o'r broses ymgynghori

Gwahoddiwyd ymgynghoreion i gwblhau ffurflen ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad a oedd yn gallu cael ei chwblhau ar ffurf copi caled neu ar-lein trwy wefan y Cyngor yn: <https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Expanding-St-Nicholas-CIW>

Cyfarfodydd a sesiynau galw heibio fel rhan o'r broses ymgynghori

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda staff a llywodraethwyr Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas ac roedd y Pennaeth a swyddogion y Cyngor yn bresennol ynddynt. Amlygwyd prif bwyntiau'r ddogfen ymgynghori a rhoddiwyd eglurhad o'r broses statudol.

Cynhaliwyd sesiynau galw heibio er mwyn i rieni ac aelodau'r gymuned ofyn cwestiynau am y cynigion a darparu sylwadau anffurfiol.

Natur yr ymgynghoriad	Dyddiad/Amser	Lleoliad
Sesiwn galw heibio i Rien i a'r Gymuned	Dydd Iau 4 Ebrill 8.45am – 9.45am 3pm – 4pm	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas, Sain Nicolas, Bro Morgannwg. CF5 6SG
Cyfarfod Llywodraethwyr	Nos Iau 4 Ebrill 6pm	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas, Sain Nicolas, Bro Morgannwg. CF5 6SG
Cyfarfod staff	Dydd Llun 8 Ebrill 3.30pm	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas, Sain Nicolas, Bro Morgannwg. CF5 6SG
Sesiwn galw heibio i Rien i a'r Gymuned	Dydd Llun 8 Ebrill 4pm – 6.30pm	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas, Sain Nicolas, Bro Morgannwg. CF5 6SG
Sesiwn ymgysylltu â disgyblion	Dydd Gwener 12 Ebrill	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas, Sain Nicolas, Bro Morgannwg. CF5 6SG

Tabl 2 – Cyfarfodydd gyda Staff, Llywodraethwyr a Rhieni

Ymgynghori â phlant a phobl ifanc

Cynhaliwyd sesiwn ymgynghori gyda'r Cyngor Ysgol yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas i gynnwys y disgyblion yn y broses ymgynghori. Ceir adroddiad ar ganlyniad y sesiwn hon yn Atodiad D.

Cwestiynau Ymgynghori

Gofynnwyd i'r ymgynghoreion am eu barn ynglŷn â chwestiwn allweddol:

Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i ehangu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas o 126 o leoedd i 210 o leoedd a newid yr ystod oedran isaf ar gyfer yr ysgol o 4 i 3 i gynnig darpariaeth feithrin o fis Medi 2021?

Cynigiwyd y cyfle i'r ymgynghoreion wneud sylwadau pellach hefyd:

Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill yn lle'r cynigion, nodwch y rhain isod.


Unrhyw sylwadau eraill?

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i law yn ysgrifenedig rhwng 18 Mawrth 2019 a 3 Mai 2019 eu nodi isod.

Canlyniadau'r adborth gan yr holl randdeiliaid

Cafwyd 27 o ymatebion unigol erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad, sef 3 Mai 2019. O'r cyfanswm o 27 o ymatebion unigol a gafwyd, roedd 22 o blaid y cynnig ac roedd 5 yn ei wrthwynebu. Fe ymatebodd Estyn yn ffurfiol i'r ymgynghoriad ac mae eu hymateb llawn wedi'i gynnwys yn Atodiad E.



Siart 1 – Rhaniad yr ymatebion a oedd yn cefnogi neu’n peidio â chefnogi’r ymgynghoriad, a’r ymatebion hynny a adawyd yn wag

Nodwyd na wnaeth pob un o’r ymgynghoreion ddarparu ymateb i bob un o’r cwestiynau a bod rhai ffurflenni heb eu cwblhau’n llawn. Yn yr achosion hyn rydym wedi derbyn yr ymatebion i’r cwestiynau y maent wedi dewis eu hateb.


Nid yw adborth o gyfarfodydd ymgynghori a sesiynau galw heibio wedi’u cynnwys yn yr adroddiad hwn gan bod y ddogfen ymgynghori’n nodi’n eglur mai dim ond ymatebion a gyflwynwyd gan ddefnyddio’r ffurflen swyddogol ar gyfer ymateb i’r ymgynghoriad fyddai’n cael eu derbyn. Hysbyswyd ymgynghoreion ynghylch hyn yn y sesiynau galw heibio.

Proffil yr ymatebwyr

Gofynnwyd i’r ymatebwyr ddynodi eu rôl mewn perthynas â’r cynnig, ac roedd yr ymatebwyr yn gallu ticio mwy nag un opsiwn.

Grwpiau o ymatebwyr	Nifer yr ymatebion o bob grŵp o ymatebwyr	% yr ymatebion o’r grwpiau o ymatebwyr
Rhiant	4	15%
Disgybl	0	0%
Llywodraethwr	8	30%
Aelod o staff	12	44%
Preswlydd lleol	9	33%
Arall	0	0%

Tabl 3 – Nifer a chanran yr ymatebion gan grwpiau o ymatebwyr



Siart 2 – Rhaniad yr ymatebion gan grwpiau o ymatebwyr a oedd yn cefnogi neu'n peidio â chefnogi'r cynnig, a'r ymatebion hynny a adawyd yn wag

Ymatebion yn ôl themâu

Ceir crynodeb o faterion allweddol a godwyd gan ymgynghoreion statudol a'r ymateb i'r materion hynny yn Atodiad A. Ceir crynodeb o'r sylwadau a gafwyd o blaid y cynnig yn Atodiad B.

Mae'r ddogfen cwestiynau cyffredin wedi cael ei diweddaru i gynnwys y cwestiynau allweddol a godwyd yn ystod y sesiynau ymgysylltu (Atodiad C).

Cynhaliwyd sesiwn ymgynghori gyda'r Cyngor Ysgol yn St Nicholas CIW Primary i gynnwys disgyblion yn y broses ymgynghori. Ceir adroddiad ar ganlyniad y sesiwn hon yn Atodiad D. Cyflwynwyd ymateb ffurfiol gan Estyn ac mae hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad E.

Cyfeiriwyd y ddogfen ymgynghori at y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar 12 Chwefror 2019. Mae cofnodion y cyfarfod hwn wedi'u cynnwys yn Atodiad F.

Casgliad

Ar ôl ystyried yr ymatebion a gafwyd trwy gydol y cyfnod ymgynghori, mae'r corff llywodraethu wedi ailystyried y cynnig i bennu'r effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg, y gymuned leol a threfniadau teithio.

Ansawdd a safonau mewn addysg

Byddai'r cynnig hwn yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar ansawdd a safonau mewn addysg. Mae nifer o ymatebion gan rieni ac aelodau o staff wedi nodi cyfyngiadau'r adeiladau presennol a fyddai'n ei gwneud yn anodd rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith yn llawn. Ymatebodd Estyn yn ffurfiol i'r ymgynghoriad, gan ddatgan, 'mae'r cynigydd wedi rhoi ystyriaeth gynhwysfawr i effaith y cynigion ar ansawdd deilliannau, y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth'. Dywedodd Estyn hefyd ei bod 'yn debygol y bydd y cynnig o leiaf yn cynnal y safonau presennol o ran yr addysg a'r ddarpariaeth yn yr ardal'.

Mae'n debygol y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd a safonau mewn addysg trwy ddarparu:

- Adnoddau a thechnolegau priodol i gynorthwyo staff a dysgwyr i gyflawni amcanion y Fframwaith Cymhwysedd Digidol.
- Digon o gyfleusterau chwarae dan do ac awyr agored i hybu lles disgyblion ar un safle.
- Mannau ymneilltuo i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Effaith ar y Gymuned

Cafodd Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ei gynnal a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori. Cafwyd nifer o sylwadau ynghylch cynnwys yr asesiad. Mae'r asesiad yn dod i'r casgliad bod y cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol trwy fwy o gyfleusterau cymunedol a chyfatebiaeth fwy effeithlon rhwng y galw am leoedd mewn ysgolion a'r cyflenwad ohonynt. Fodd bynnag, mae'r Asesiad diwygiedig o'r Effaith ar y Gymuned yn egluro y byddai'r ardaloedd awyr agored yn dal i fod yn hygyrch i'r gymuned ac yn cael eu gwella trwy ddarparu ardaloedd natur a chyfleusterau chwaraeon. Mae'r effaith o ran mwy o draffig a sŵn ar weithwyr cartref yn cael ystyriaeth fwy penodol yn y fersiwn diwygiedig hefyd.

Trefniadau teithio

Codwyd nifer o bryderon yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch mwy o draffig ym mhentref Sain Nicolas o ganlyniad i ehangu nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol. Byddai Asesiad Trafnidiaeth llawn yn cael ei gwblhau yn ystod cam dylunio a chynllunio'r cynnig. Byddai'n ofynnol cael caniatâd cynllunio ar gyfer y cynnig.

Atodiad A - Crynodeb o'r materion allweddol a godwyd gan ymgynghorion statudol ac ymateb y corff llywodraethu

Mae'r canlynol yn crynhoi'r materion allweddol a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol. Mae'r materion yn cyflwyno trosolwg o'r ymatebion ac nid ydynt wedi'u bwriadu i'w cyfleu air am air. Trefnwyd fod yr holl ymatebion ysgrifenedig ar gael i aelodau'r corff llywodraethu.

Mater 1

Byddai angen i fynediad a pharcio yn y pentref fod yn ystyriaethau difrifol

Roedd nifer o ymatebion yn nodi ei bod yn hanfodol bod pryderon ynghylch mynediad a pharcio'n cael eu hystyried wrth ddylunio adeilad newydd yr ysgol. Ceir pryderon penodol ynghylch diogelwch disgyblion a phreswylwyr am fod ceir yn cael eu parcio ar y lonydd cul. Codwyd hyn gan nifer o rieni ac aelodau'r gymuned yn y sesiynau galw heibio hefyd.

Ymateb y corff llywodraethu i'r pryderon a godwyd

Mae'r corff llywodraethu'n cydnabod y pryderon a godwyd gan rieni ac aelodau'r gymuned a byddai'n cydweithio'n agos gyda'r Cyngor i weithredu mesurau i leihau tagfeydd i'r eithaf a rheoli mynediad diogel i'r safle. Yn flaenorol, cyflwynwyd nifer o fesurau, gan gynnwys:

- Darparu gwasanaeth bws mini gan yr ysgol

- Cyflwyno clwb brechwast
- Presenoldeb staff wrth y gât cyn ac ar ôl ysgol

Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yn y Cyngor fyddai'n rheoli'r broses dylunio ac adeiladu. Byddai asesiad trafndiaeth yn cael ei gynnal ac yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses ddylunio. Byddai'n rhaid i adeilad newydd yr ysgol gael caniatâd cynllunio a fyddai'n cynnwys ymgynghori'n ffurfiol ag aelodau'r gymuned. Byddai'r corff llywodraethu'n annog rhieni, disgyblion a staff i ddefnyddio gwasanaethau bysiau ac opsiynau teithio llesol fel rhan o ddulliau newid ymddygiad i leihau i'r eithaf y defnydd o geir yn agos at y safle.

Un o'r blaenoriaethau allweddol wrth ddatblygu'r cynnig oedd dileu'r angen am safle rhanedig ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas. Ar hyn o bryd, caiff disgyblion eu hebrwng gan staff i lawr ffordd â phafin i adeilad cyfagos yr 'Hen Ysgol'.

Mater 2

Nid yw'r cynigydd wedi ystyried dewis arall a fyddai'n golygu lleoli'r ysgol ar safle newydd gyda mynediad gwell

Yn gysylltiedig â'r mater a godwyd uchod, roedd gan nifer o breswylwyr lleol bryderon ynghylch addasrwydd y safle presennol o ran mynediad ac fe awgrymon nhw y dylid bod wedi ystyried safle arall.

Ymateb y corff llywodraethu i'r pryderon a godwyd

Mae adeilad presennol Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas wedi'i leoli ar safle sy'n mesur tua 12,034m². Mae Bwletin Adeiladu 99: fframwaith adeiladu ar gyfer prosiectau ysgolion cynradd (BB99) yn nodi bod arwynebedd safle gros sydd rhwng 10,024m² a 11,224m² yn ofynnol ar gyfer ysgol gynradd â 210 o leoedd gyda lleoedd meithrin. Byddai'r safle presennol yn mynd y tu hwnt i ofynion BB99. Felly, ni chafodd y posibilrwydd o ddod o hyd i safle arall ei archwilio oherwydd y costau cyfalaf sy'n gysylltiedig â phrynu tir. O ystyried bod arwynebedd y safle presennol uwchlaw gofynion BB99, efallai na fyddai safle arall yn darparu ardal awyr agored mor fawr ar gyfer hamdden, dysgu yn yr awyr agored, a defnydd cymunedol.

Mae hefyd yn werth nodi bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal ar gyfer y newidiadau arfaethedig a reoleiddir trwy gynyddu capasiti'r ysgol ac ehangu'r ystod oedran. Mae'r ddogfen ymgynghori'n nodi fel a ganlyn:

“Mae ysgol newydd â 210 o leoedd ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas wedi cael ei chynnwys fel rhan o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Cynigir y byddai Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas yn symud i mewn i'r adeilad hwn erbyn mis Medi 2021 i ateb y galw uwch. Er bod trosglwyddo'r ysgol i'r adeilad newydd wedi'i gynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, nid yw'n ddarostyngedig i'r broses statudol gan y byddai'r trosglwyddiad o fewn 1.609344 o gilometrau (1 filltir).”

Awgrymodd nifer o ymatebwyr y byddai dewis tir arall yn arwain at fwy o gyfleusterau, megis parcio. Fodd bynnag, dim ond cyllid i ddarparu adeiladau ysgol

sy'n cydymffurfio â BB99 y mae'r Cyngor yn ei gael gan Lywodraeth Cymru. Felly ni fyddai unrhyw gyllid ar gyfer cyfleusterau ychwanegol.

Mater 3

Nid yw ehangu'r ysgol yn gyson â statws pentref cadwraeth

Roedd gan nifer o breswylwyr lleol bryderon ynghylch cynyddu capasiti'r ysgol o fewn ardal pentref cadwraeth.

Ymateb y corff llywodraethu i'r pryderon a godwyd

Fel a nodir uchod, mae'r safle presennol yn diwallu'r angen am gapasiti mwy o ran BB99. Pe byddid yn bwrw ymlaen â'r cynnig hwn, byddai penseiri'n cael eu penodi i ddylunio'r ysgol newydd. Byddai nifer o randdeiliaid yn cael eu cynnwys trwy gydol y broses ddylunio, gan gynnwys staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion. Byddai'n rhaid cael caniatâd cynllunio ar gyfer y dyluniad terfynol, lle byddai effaith y dyluniad yng nghyd-destun yr ardal gadwraeth yn cael ei hystyried. Mae cynllunio'n broses statudol ac yn cynnwys ymgynghori ffurfiol â rhanddeiliaid, gan gynnwys preswylwyr lleol.

Mae'n werth nodi mai'r rheswm dros y cynnig yw ateb y galw uwch am leoedd mewn ysgolion o ganlyniad i ddatblygiadau tai diweddar a datblygiadau tai arfaethedig yn y dyfodol ar gyfer Sain Nicolas a Thresimwn.

Mater 4

Bod yr ysgol newydd ar fan agored cyhoeddus

Roedd gan nifer o breswylwyr lleol bryderon ynghylch mynediad cyhoeddus at gaeau'r ysgol yn ystod y gwaith adeiladu a pha un a fyddai'r rhain yn dal yn hygyrch ar ôl y gwaith adeiladu.

Ymateb y corff llywodraethu i'r pryderon a godwyd

Nid yw'r corff llywodraethu'n cynnig unrhyw newidiadau i'r trefniant presennol ar gyfer defnydd y gymuned o gae'r ysgol. Byddai lle awyr agored cyfyngedig yn ystod y gwaith adeiladu gan y byddai'r ysgol yn dal i fod yn weithredol trwy gydol y cyfnod.

Efallai y byddai gan yr ysgol newydd ôl troed mwy nag adeilad presennol yr ysgol i wneud lle i'r capasiti ychwanegol a allai arwain at ostyngiad ar y cyfan yn yr ardal awyr agored. Fodd bynnag, byddai'r cyfleusterau allanol yn cael eu gwella fel rhan o'r datblygiad, gan arwain at ardal allanol o ansawdd gwell gan gynnwys ardaloedd chwaraeon a chynefinoedd. Byddai adeilad presennol yr ysgol yn cael ei ddyrchwyl yn dilyn agor adeilad newydd yr ysgol.

Mae defnydd cymunedol yn rhan annatod o Raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Byddai'r ysgol newydd yn darparu cyfleusterau a fyddai ar gael i'r gymuned eu defnyddio, gan gynnwys neuadd chwaraeon.

Mater 5

Nid oedd preswylwyr lleol yn teimlo'u bod wedi cael eu cynnwys fel rhan o'r ymarfer ymgynghori

Roedd nifer o breswylwyr lleol yn anhapus eu bod heb gael eu hysbysu'n uniongyrchol ynghylch yr ymgynghoriad ac yn teimlo gan hynny nad oeddent wedi gallu rhoi eu barn.

Ymateb y corff llywodraethu i'r pryderon a godwyd

Fe ymgynghorwyd ynghylch y newid arfaethedig a reoleiddir fel a nodir yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Fe ymgynghorwyd ag ymgynghoreion rhagnodedig, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar wefan Cyngor Bro Morgannwg ac fe'i dosbarthwyd i ymgynghoreion rhagnodedig. Nid yw preswylwyr lleol wedi'u henwi fel ymgynghoreion rhagnodedig.

Trefnwyd cyfarfodydd ymgynghori i roi'r cyfle i aelodau'r gymuned ofyn unrhyw gwestiynau ynghylch y cynnig. Trefnwyd y sesiynau ymgynghori canlynol.

Natur yr ymgynghoriad	Dyddiad/Amser	Lleoliad
Sesiwn galw heibio i Rieni a'r Gymuned	Dydd Iau 4 Ebrill 8.45am – 9.45am 3pm – 4pm	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas, Sain Nicolas, Bro Morgannwg. CF5 6SG
Cyfarfod Llywodraethwyr	Nos Iau 4 Ebrill 6pm	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas, Sain Nicolas, Bro Morgannwg. CF5 6SG
Cyfarfod staff	Dydd Llun 8 Ebrill 3.30pm	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas, Sain Nicolas, Bro Morgannwg. CF5 6SG
Sesiwn galw heibio i Rieni a'r Gymuned	Dydd Llun 8 Ebrill 4pm – 6.30pm	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas, Sain Nicolas, Bro Morgannwg. CF5 6SG
Sesiwn ymgysylltu â disgyblion	Dydd Gwener 12 Ebrill	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas, Sain Nicolas, Bro Morgannwg. CF5 6SG

Cafodd argaeledd y sesiynau hyn ei amlygu yn y ddogfen ymgynghori, ar wefan y Cyngor a'i hyrwyddo trwy gyfrifon y Cyngor ar y cyfryngau cymdeithasol. Cafodd yr ymgynghoriad a'r sesiynau galw heibio eu hysbysebu ar hysbysfwrdd yr ysgol y tu allan i'r safle hefyd. Daeth nifer o breswylwyr lleol i'r sesiwn galw heibio ar gyfer Rhieni a'r Gymuned ar ddydd Llun 8 Ebrill. Yn eu plith roedd cynrychiolydd o Gyngor Cymuned Sain Nicolas gyda Thresimwn.

Cynhaliwyd sianeli cyfathrebu agored trwy gydol y cyfnod ymgynghori. Cafwyd nifer o negeseuon e-bost oddi wrth breswylwyr lleol, gan gynnwys nifer o'r ymatebwyr. Fe ymatebwyd yn brydlon i'r rhain i gyd.

Pe bai'r cynnig yn mynd ymlaen i'r cam nesaf byddai cais cynllunio ffurfiol yn cael ei gyflwyno ar gyfer adeilad newydd yr ysgol. Byddai preswylwyr lleol yn cael eu hysbysu ynghylch y cais hwn yn uniongyrchol a byddent yn gallu ymateb gydag unrhyw bryderon.

Mater 6

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Roedd un ymatebydd yn anghytuno â chanfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ac fe gwestiynodd y pwyntiau canlynol:

- EG2 'gwelliant bach' fyddai cyfleusterau ychwanegol, nid 'gwelliant'
- EG4 mae'n aneglur a fyddai'r cae'n dal i fod yn agored i'r cyhoedd, 'diraddiad' nid 'gwelliant'
- EG5 bydd busnesau cartref yn dioddef oherwydd sŵn a thraffig
- EG6 efallai na fyddai aelodau pellach o staff a fyddai'n cael eu recriwtio'n dod o'r ardal leol
- EG7 dylai'r traffig fod yn 'ddirywiad cymedrol neu fawr' yn hytrach na 'diraddiad bach'
- +0.5 ddylai'r sgôr fod, nid +1.375

Ymateb y corff llywodraethu i'r pryderon a godwyd

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn ddogfen esblygol a bydd yn cael ei hystyried yn ystod pob cam o'r cynnig hwn. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi cael ei ddiweddarau yn dilyn adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

EG2

Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn darparu nifer o wasanaethau ar gyfer y gymuned leol. Fodd bynnag, mae'r safle presennol yn cyfyngu ar nifer y gwasanaethau. Mae'r corff llywodraethu o'r farn y byddai adeilad newydd ar gyfer yr ysgol yn rhoi'r cyfle i'r ysgol gynyddu'r gwasanaethau a ddarperir. Byddai hyn yn cael ei ymgorffori yn nyluniad yr adeilad newydd. Felly, mae'r corff llywodraethu o'r farn bod hyn yn 'welliant cymedrol'.

EG4

Mae'r lleihad posibl ym maint cae'r ysgol o ganlyniad i'r adeilad newydd wedi cael ei gynnwys ac mae'r sgôr wedi cael ei ailystyried o ganlyniad.

EG5

Mae'r effaith bosibl ar fusnesau cartref o ganlyniad i fwy o sŵn a thraffig wedi cael ei chynnwys o ganlyniad i adborth a gafwyd ac mae'r sgôr wedi cael ei ailystyried.

EG6

Byddai'r cynnig yn arwain at gyfleoedd cyflogaeth ychwanegol o ganlyniad i fwy o gapasiti ac ystod oedran estynedig. Er nad oes gwarant y byddai'r rolau hyn yn cael eu hysgwyddo gan breswylwyr lleol, mae'n darparu cyfleoedd cyflogaeth ychwanegol ar gyfer y gymuned leol serch hynny. Fe ymatebodd nifer o aelodau o staff gan ddatgan y byddai'r cyfleusterau newydd yn gwella dysgu ac addysgu ac yn creu amgylchedd gwell i staff a disgyblion. Felly, fe benderfynodd y corff llywodraethu y byddai gwelliant mawr o ran cyflogaeth leol.

EG7

Byddai'r effaith lawn ar seilwaith lleol yn cael ei phennu trwy gwblhau asesiad trafniadaeth llawn. Gallai nifer uwch y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol arwain at fwy o draffig a thagfeydd. Fodd bynnag, gallai'r adeilad newydd ddarparu'r cyfle i leihau'r effaith ar y seilwaith lleol. Er enghraifft, byddai'r adeilad newydd yn cynnwys maes parcio sy'n cydymffurfio â rheoliadau adeiladu cyfredol. Felly, ar y cam hwn, mae'r corff llywodraethu wedi penderfynu y byddai'r seilwaith lleol yn dirywio ychydig.

Ar y cyfan

Ar ôl ailystyried yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, 1.125 yw'r sgôr cyfartalog sy'n dangos bod y cynnig yn debygol o arwain at welliant bach i'r gymuned lleol.

Mater 7

Cynnwys yn y broses cynllunio ac adeiladu

Soniodd un ymatebydd am bwysigrwydd cynnwys preswylwyr lleol, staff, rhieni, llywodraethwyr a rhanddeiliaid eraill ym mhob cam o'r broses.

Ymateb y corff llywodraethu i'r pryderon a godwyd

Mae'r corff llywodraethu'n gwerthfawrogi barn preswylwyr lleol, staff, rhieni a rhanddeiliaid eraill a chan hynny mae'n darparu cyfleoedd i'w cynnwys yn ystod pob cam o'r broses. Er enghraifft, yn ystod y cam dylunio bydd tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cwrdd yn aml â rhanddeiliaid yr ysgol i gael sylwadau ac yn cynnal sesiynau galw heibio a fydd yn agored i'r gymuned cyn cyflwyno'r cais i'r adran gynllunio. Yn ystod y gwaith adeiladu byddai'r contractwyr a benodir yn cynnal sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ffurf ymweliadau â safleoedd a gweithdai gyda disgyblion. Byddai cyfleoedd hefyd i grwpiau cymunedol lleol wneud cais am roddion mewn ffyrdd eraill, hyfforddiant sgiliau digidol, a chynghor ynghylch llywodraethu sy'n rhoi sylw i'r agwedd ar y datblygiad sy'n ymwneud â manteision cymunedol.

Mater 8

Dyluniad yr adeilad yn gyson ag estheteg y pentref

Dywedodd nifer o ymatebwyr y byddai'n well ganddynt pe bai'r adeilad yn un ag un llawr i gynyddu cysylltiad â natur werinol adeiladau lleol.

Ymatebion y corff llywodraethu i'r pryderon a godwyd

Er bod hyn yn fwy priodol ar gyfer y cam cynllunio, mae'r corff llywodraethu'n amcanu at integreiddio dyluniad yr adeilad ag ystyriaethau lleol yn gynnar trwy agweddau ar y dyluniad megis y dewis o ddeunyddiau. Byddai tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yn archwilio'r holl opsiynau ar gyfer dyluniad yr adeilad sy'n briodol ar gyfer diwallu anghenion addysgol ac adeilad un llawr yw un o'r opsiynau i'w hystyried.

Atodiad B – Crynodeb o sylwadau a gafwyd o blaid y cynnig.

Mae'r adran hon yn darparu'r themâu allweddol a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol gan y rhai a oedd o blaid y cynnig. Mae'r canlynol yn drosolwg o'r ymatebion ac nid yw'n gynhwysfawr nac wedi'i fwriadu i'w cofnodi air am air. Trefnwyd fod yr holl ymatebion ysgrifenedig ar gael i aelodau'r corff llywodraethu.

Sylw 1

Byddai mynediad at gyfleusterau digonol o fudd i iechyd a lles disgyblion.

Byddai Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas yn cael budd enfawr o gyfleusterau gwell megis dosbarthiadau o faint priodol a darpariaeth chwaraeon awyr agored. Ar hyn o bryd mae'r disgyblion ieuengaf yn cael eu haddysgu mewn adeilad ar wahân, ac mae ymatebion yn nodi pryderon ynghylch diogelwch o ystyried bod plant bach yn cerdded ar ffordd heb balmentydd. Mae hyn hefyd yn cael effaith o ran yr amser staff y mae ei angen i hebrwng disgyblion rhwng yr adeiladau. Byddai addysgu'r holl ddisgyblion mewn un adeilad yn gwella hunaniaeth yr ysgol fel un ysgol ac yn datrys y problemau canlynol o ran mynd â'r disgyblion o un safle i'r llall. Fe wnaeth ymatebion nodi'r ddarpariaeth annigonol o ran mynediad at y safle ar gyfer defnyddwyr anabl a'r diffyg toiledau sy'n addas ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn hefyd. Byddai hyn yn cael ei wella'n aruthrol mewn adeilad a ddyluniwyd yn unol â rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

Sylw 2

Byddai'r cyfleusterau newydd arfaethedig yn gwella safonau addysgol a gweithgareddau allgyrsiol yn yr ysgol.

Nid yw adeilad presennol yr ysgol yn addas i'w ddiben. Mae angen cyfleusterau gwell i gynorthwyo'r staff addysgu i gyrraedd y safonau rhagorol y maent yn eu cyrraedd ar hyn o bryd ar raddfa ehangach. Byddai'r manteision y gall yr adeilad ysgol newydd eu cynnig yn galluogi hyn i ddigwydd. Ar hyn o bryd nid oes digon o le mewn rhai o'r ystafelloedd dosbarth i ddisgyblion fod ag ardal weithio ddigonol; mae hyn hyd yn oed wedi arwain at drosi'r llyfrgell yn ystafell ddosbarth dros dro. Mae gofynion y cwricwlwm o ran TGCh yn anodd i'w hateb hefyd oherwydd cyfleusterau annigonol. Bydd yr adeilad newydd arfaethedig yn darparu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol sy'n gallu addasu i newid a bydd yn herio ac yn cynorthwyo plant i gyrraedd eu llawn botensial. Roedd ymatebwyr yn gobeithio y byddai'r cyfleusterau newydd arfaethedig yn rhoi cymorth gwell i ddarparu'r cwricwlwm ar gyfer ystod ehangach o ddisgyblion ac yn galluogi gweithgareddau ychwanegol i ddigwydd, megis chwaraeon a dysgu digidol.

Sylw 3

Byddai ychwanegu darpariaeth feithrin yn gwella ethos cydlynus yr ysgol ac yn galluogi pontio esmwyth ar gyfer disgyblion o'r dosbarth meithrin i'r Cyfnod Sylfaen.

Nid oes darpariaeth feithrin gan yr ysgol ar hyn o bryd, sy'n golygu bod cryn dipyn o amser yn cael ei golli'n integreiddio disgyblion y dosbarth derbyn yn yr ysgol a bod disgyblion lleol posibl yn cael eu colli i ysgolion eraill yn bellach i ffwrdd sydd â

darpariaeth feithrin. Bydd y ddarpariaeth feithrin arfaethedig yn darparu dull cyson o 3-11 oed i hybu a thanategu parhad a dilyniant ar gyfer disgyblion, gan sicrhau ehangder a chydbwysedd ar draws y cwricwlwm. Bydd hefyd yn datblygu ethos a diwylliant yr ysgol mewn plant o oedran cynharach, gan arwain at berthnasoedd rhyngpersonol effeithiol a hunan-fri uwch.

Sylw 4

Byddai mwy o fynediad at gyfleusterau cymunedol ar safle newydd arfaethedig yr ysgol o fudd i breswylwyr lleol.

Byddai preswylwyr Sain Nicolas ac ardaloedd ehangach yn cael budd o fwy o fynediad at gyfleusterau cymunedol. Byddai'r cynnig hwn yn cynnal ac yn cynyddu lefel y mynediad a rhyngweithio cymunedol trwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol gan hefyd ddiwallu anghenion yr ysgol. Mae ymatebion yn rhoi anogaeth i drefnu bod cyfleusterau ar gael i'w defnyddio gan y gymuned; gan gynnwys ardaloedd ar gyfer hamdden awyr agored a mannau cyfarfod ar gyfer dosbarthiadau nos.

Atodiad C – Cwestiynau a ofynnir yn aml.

Mae'r adran hon yn darparu cwestiynau cyffredin wedi'u diweddarau mewn perthynas â'r cynnig.

Beth yw'r raddfa amser fwriadedig ar gyfer datblygu'r ysgol?

Mae'r gwaith i adeiladu'r ysgol newydd yn debygol o ddechrau erbyn mis Gorffennaf 2020. Bwriedir i'r ysgol newydd agor erbyn mis Medi 2021.

Pwy fyddai'n rheoli'r broses o godi adeilad newydd yr ysgol?

Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor fyddai'n gyfrifol am reoli'r broses adeiladu. Byddai contractwr yn cael ei benodi gan ddefnyddio fframwaith SEWSCAP. Fframwaith adeiladu yw SEWSCAP a ddefnyddir gan 16 o awdurdodau lleol ac sy'n darparu Contractwyr sydd wedi cyn-gymhwyso ac sydd â phrofiad addas i gyflawni Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, ac adeiladau cyhoeddus eraill, sy'n gysylltiedig â phrosiectau i godi adeiladau newydd ac adnewyddu adeiladau presennol y mae eu gwerth yn fwy nag £1.5 miliwn. Byddai rhaglen ymgysylltu'n cael ei llunio i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu ynghylch y cynnydd ac yn gallu bwydo i mewn i'r broses ddylunio. Byddai cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Cyngor, y contractwr a'r ysgol.

A fyddai adeiladu'r ysgol newydd yn tarfu ar staff, disgyblion a phreswylwyr lleol?

Cynigir y bydd adeilad newydd yr ysgol yn cael ei godi ar y safle presennol a fyddai'n golygu y terfir rywfaint ar staff, disgyblion a phreswylwyr lleol yn ystod y cam adeiladu. Byddai'r ysgol yn cydweithio'n agos â Thîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor i sicrhau y terfir gyn lleied â phosibl trwy gyfyngu ar amseroedd danfon deunyddiau a chydweithio â rheolwr y safle.

A fyddai trefniadau wrth gefn yn cael eu sefydlu yn ystod y broses o adeiladu'r ysgol newydd i sicrhau bod disgyblion yn gallu cael mynediad at fannau awyr agored?

Gan y byddai'r adeilad newydd arfaethedig yn cael ei godi ar y safle presennol, byddai'r ysgol yn colli lle awyr agored yn ystod y cam adeiladu. Yn ystod yr amser hwn, byddai'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda thîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif i sicrhau bod gan ddisgyblion fynediad at ardal awyr agored ddigonol ac nad yw'r cwricwlwm yn cael ei beryglu. Byddai'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda'r tîm adeiladu i sicrhau bod disgyblion yn cael eu cynnwys trwy gydol y broses a bod y cwricwlwm yn cael ei wella trwy ymweliadau rheolaidd â'r safle.

Sut fyddem ni'n cael ein cynnwys trwy gydol y broses ddylunio?

Byddai rhaglen ymgysylltu'n cael ei llunio i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu ynghylch cynnydd ac yn gallu bwydo i mewn i'r broses ddylunio. Byddai cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Cyngor, y contractwr a'r ysgol. Gellir anfon unrhyw adborth neu feddyliau at Dîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yn: 21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk

Atodiad D - Ymgynghori a fu gyda phobl ifanc.

Ymgynghoriad gydag Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas ar ran Cyngor Bro Morgannwg ynghylch y cynnig i newid ystod oedran yr ysgol o 4-11 oed i 3-11 oed, sefydlu dosbarth meithrin a chynyddu'r capasiti o 126 o leoedd i 210 o fis Medi 2021.

Y Cefndir a'r Nod

- Yn eu Dogfen Ymgynghori ynghylch y cynnig uchod mae Cyngor Bro Morgannwg yn nodi pwysigrwydd gwneud trefniadau addas i ymgynghori â disgyblion yr ysgol a, lle y bo'n bosibl, y disgyblion hynny sy'n debygol o fynychu'r ysgol: 'Mae'r Cyngor yn credu'n gryf y dylai disgyblion Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas gael y cyfle i wneud eu barn am y cynnig hwn yn hysbys'.
- Trefnwyd gweithdy ymgynghori gyda'r cyngor ysgol ar 12 Ebrill 2019 i gasglu eu barn ynglŷn â'r cynnig.
- Bydd yr wybodaeth a gasglwyd o'r sesiwn yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol. Bydd yr adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor i gael ei ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

Methodoleg

- Gweithdy rhyngweithiol a roddodd gyfle i ddisgyblion drafod a rhannu syniadau gyda'i gilydd.
- Fe ddechreuodd â thrafodaeth ynglŷn ag ystyr ymgynghori a pham ei bod yn bwysig siarad gyda disgyblion
- Daethpwyd i gytundeb ynglŷn â beth sy'n gwneud trafodaeth/ymgynghoriad da
- Wedyn fe eglurwyd y ddogfen ymgynghori wrthynt, gan gynnwys cefndir a llinell amser y gweithgarwch.
- Rhannwyd y disgyblion yn 2 grŵp i rannu a nodi eu syniadau eu hunain. Wedyn daethpwyd â'r ddau grŵp ynghyd i drafod y syniadau hyn ymhellach, yn seiliedig ar y rheolau ymgysylltu y cytunwyd arnynt ar ddechrau'r sesiwn.
- Yn dilyn yr adborth rhoddwyd gwybodaeth i'r disgyblion am y manteision a'r anfanteision a oedd wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori, cawsant eu hatgoffa o'r llinell amser ac fe eglurwyd wrthynt y byddai eu sylwadau'n cael eu bwydo i mewn i adroddiad ar y sesiwn ac y byddai hwnnw'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor fel rhan o'r dystiolaeth a gasglwyd ar yr ymgynghoriad hwn.

Ymatebion disgyblion (12 disgybl – 10 o'r Cyngor Ysgol (BI 2-6) gyda 2 ddisgybl ychwanegol o FI3)

Beth sy'n gwneud trafodaeth dda:

- Gwrando ar bawb
- Cyfleoedd i bawb siarad
- Cael syniadau pawb
- Cydweithio'n dda fel tîm

Manteision y cynllun arfaethedig

- Bydd mwy o blant yn cael mwy o gyfleoedd
- Bydd mwy o blant yn cael addysg
- Gallm gael ystafelloedd dosbarth mwy
- Creu dosbarth meithrin i'r rhai bach
- Os bydd gennym ddosbarth meithrin bydd y bobl sy'n mynd i'r dosbarth meithrin yn mynd yn syth i'r ysgol
- Bydd pawb gyda'i gilydd
- Rhoi mwy o le i'r plant
- Mwy o ddosbarthiadau ar wahân a fydd yn haws i athrawon a disgyblion (gan y byddant o'r un gallu/oedran)
- Mwy o bethau i'w gwneud yn yr ystafell ddosbarth
- Ystafell ar gyfer darllen
- Pethau mwy creadigol
- Mwy o chwarae yn yr awyr agored
- Trafod yn fwy gyda phobl
- Bydd gennym fwy o gyfleusterau
- Fe allem ni gael neuadd fwy fel bod mwy o bobl yn gallu bwyta ar yr un adeg â'i gilydd
- Bwyd iachach
- Mwy o gelf a phethau felly
- Mwy o liwiau a chreadigrwydd (arddangosfa celf)
- Mwy o Addysg Gorfforol
- Mwy o glybiau chwaraeon yn cael eu cynnal ar ôl ysgol
- Maes chwarae gyda siglenni, llithrennau a chwrs rhwystrau a ffrâm ddringo
- Dod i adnabod mwy o bobl a gwneud mwy o ffrindiau
- Athrawon newydd
- Mwy o blant ym mhob grŵp blwyddyn
- Codi mwy o arian
- Mwy o le ar gyfer diwrnod mabolgampau
- Mwy o le i chwarae a rhedeg o gwmpas
- Mwy o offer
- Diogel ac yn hwyl
- Mwy o adnoddau
- Mwy o weithgareddau

Anfanteision posibl y cynllun arfaethedig

- Bydd yr ysgol yn mynd yn fwdlyd am ei bod yn mynd i gael ei chodi ar wair a bydd disgyblion yn dod i mewn i'r ysgol â thraed mwdlyd (dylid cadw hyn mewn cof wrth ei hadeiladu)
- Poeni y bydd yn rhy fawr ac yn rhy brysur i'r rhai bach (plant yn brifo)
- A fydd yr un fframiau a bariau dringo gyda ni?
- Pryder ynghylch colli peth o'r offer sydd ganddynt yn awr
- Os yw'n adeilad deulawr yna gallai fod yn beryglus i'r rhai bach
- Byddai mwy o bobl yn gallu eich bwlio
- Colli ardal awyr agored yn ystod y gwaith adeiladu

Sylwadau cyffredinol

Cyfraniadau da gan yr holl ddisgyblion, o F12 i F16. Fe ymatebodd y disgyblion mewn modd trefnus, teg ac agored.

Cefnogaeth aruthrol i'r cynnig; pan ofynnwyd iddynt bleidleisio 'O blaid', 'Ddim yn siŵr', neu 'Yn erbyn', fe bleidleisiodd y 12 disgybl fel a ganlyn:

O blaid – 11
Ddim yn siŵr - 1

12.iv.19
gj

Atodiad E – Ymateb oddi wrth Estyn

Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), fe anfonwyd copi o'r ddogfen ymgynghori at Estyn.

Ymateb Estyn i'r cynnig yn ymgynghoriad Cyngor Sir Bro Morgannwg i newid ystod oedran a chynyddu capasiti Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod gysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn darparu ei farn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigydd.

Cyflwyniad

Cynnig ymgynghori gan Gyngor Sir Bro Morgannwg yw hwn.

Mae'r cynnig yn un i wneud y canlynol:

- Newid ystod oedran Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas o 4-11 oed i 3-11 oed a sefydlu dosbarth meithrin sy'n cynnwys 48 o leoedd rhan-amser o fis Medi 2021
- Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas o 126 o leoedd i 210 o leoedd o fis Medi 2021

Crynodeb/Casgliad

Mae'r cynnig hwn yn canolbwyntio ar ateb y galw uwch rhagamcanol am leoedd yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas.

Mae'r cynigydd wedi nodi'n glir y dylai'r cynnig ateb y galw a ragwelir am leoedd ychwanegol yn yr ysgol.

Ym marn Estyn mae'n debygol y bydd y cynnig o leiaf yn cynnal safonau presennol yr addysg a'r ddarpariaeth yn yr ardal.

Disgrifiad a manteision

Mae'r cynigydd wedi darparu rhesymeg fanwl ac eglur dros y cynnig. Yn sgîl datblygiadau tai sylweddol yn nalgylch yr ysgol rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn codi'n sylweddol. Mae'r cynigydd yn datgan yn ddilys bod angen lleoedd ychwanegol er mwyn ateb y galw hwn a ragwelir gan bod yr ysgol wedi mynd y tu hwnt i'w chapasiti ar hyn o bryd. Mae'r cynigydd yn tynnu sylw'n deg at gyflwr gwael

adeiladau'r ysgol ar hyn o bryd a natur ei safleoedd ac mae'n nodi'n rhesymol y byddai codi ysgol newydd ar y safle'n gwella'r sefyllfa hon.

Mae'r cynigydd yn nodi'r manteision, yr anfanteision a'r risgiau posibl mewn modd defnyddiol. Mae'n datgan yn ddilys y byddai'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu gwell ar gyfer disgyblion ac yn sicrhau bod Cyngor Bro Morgannwg yn gallu ateb y galw am addysg ffydd yn y dyfodol. Mae'n datgan yn deg y byddai'r cyfleusterau gwell yn cynyddu lefel y rhyngweithio rhwng yr ysgol a'r gymuned. Mae'r cynigydd yn cydnabod yn addas bod yr anfanteision posibl yn cynnwys tarfu ar ddisgyblion, staff ac adnoddau wrth bontio i adeilad newydd yr ysgol.

Mae'r cynigydd wedi ystyried opsiynau eraill yn briodol. Rhoddodd ystyriaeth i bedwar opsiwn arall ac fe ddiystyrododd bob un ohonynt oherwydd ystod o ffactorau perthnasol. Mae'r cynigydd yn datgan yn gadarn na fyddai'r cynnig yn effeithio ar drefniadau teithio presennol dysgwyr gan y byddai'r ysgol yn aros ar y safle presennol a chan na fyddai newid i'r dalgylch.

Mae'r cynigydd yn datgan yn rhesymol bod y cynnig yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar ysgolion eraill yn y dalgylch gan na fydd ffiniau dalgylchoedd yn newid. Mae'r cynigydd wedi gweithredu'n briodol i asesu effaith y cynnig ar y Gymraeg. Mae'n datgan yn deg na fydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar ddarpariaeth Gymraeg nac ar addysgu'r Gymraeg i ddisgyblion yn yr ysgol sy'n addysgu trwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf.

Agweddau Addysgol ar y cynnig:

Mae'r cynigydd wedi rhoi ystyriaeth gynhwysfawr i effaith y cynigion ar ansawdd deilliannau, y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'n cyfeirio'n ddilys at ddeilliannau adroddiad arolygu diweddaraf yr ysgol gan Estyn a chategori cymorth a band yr ysgol.

Mae'n dod i gasgliad rhesymol nad yw'n rhagweld unrhyw effeithiau negyddol ar ansawdd safonau ac addysg a lles disgyblion yn yr ysgol. Mae'r cynigydd yn datgan yn gryf y byddai cyfleusterau newydd yn cefnogi'r dysgu, yr addysgu a darparu cwricwlwm eang a chytbwys. Mae'n dadlau'n effeithiol y gallai'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar safonau trwy ddarparu amgylchedd dysgu a seilwaith sy'n cefnogi athrawon a disgyblion.

Mae'r cynigydd yn datgan yn gywir nad yw Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas yn cynnig darpariaeth feithrin ar hyn o bryd. Mae'n dadlau'n gryf y bydd y 48 o leoedd meithrin arfaethedig yn datblygu parhad a dilyniant yn nysgu'r plant o dair oed. Mae'n datgan yn deg y dylai hyn helpu i sicrhau dull cyson a darpariaeth gyson o ran y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r cynigydd yn dadlau'n foddhaol nad yw'n rhagweld unrhyw effaith anffafriol ar arweinyddiaeth a rheolaeth dan y cynigion hyn.

Mae'r cynigydd wedi rhoi ystyriaeth addas i'r effaith ar grwpiau agored i niwed. Mae'n dod i gasgliad yn briodol nad oes tystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar ddisgyblion agored i niwed gan gynnwys y rhai ag Anghenion Addysgol Arbennig. Mae'n datgan yn rhesymol y byddai'r adeilad

newydd yn gwella cyfleusterau i gefnogi lles, gan gynnwys mannau ymneilltuo ar gyfer ymyriadau anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r cynigydd wedi rhoi ystyriaeth addas i'r modd y gallai'r cynnig darfu ar ddisgyblion. Mae'n cydnabod yn ddilys y byddai codi adeilad newydd yr ysgol ar y safle presennol yn golygu y bydd y gwaith adeiladu'n tarfu rywfaint. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn datgan yn rhesymol y bydd cydweithio agos gyda Thîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yn y Cyngor yn golygu bod y gwaith adeiladu'n tarfu gyn lleied â phosibl.

Atodiad F – Cofnodion y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar y cynnig

Y PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Detholiad o Gofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ebrill 2019.

921 CYNNIG I GYNYDDU NIFER Y LLEOEDD CYNRADD A SEFYDLU 48 O LEOEDD MEITHRIN RHAN-AMSER YN YSGOL GYNRADD YR EGLWYS YNG NGHYMRU SAIN NICOLAS (CYF) –

Roedd y Cabinet, ar 18 Chwefror 2019, wedi atgyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Craffu iddo'i ystyried fel rhan o'r ymarfer ymgynghori arfaethedig. Roedd cymeradwyaeth y Cabinet wedi cael ei cheisio i gynnal ymgynghoriad statudol fel a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) ynghylch y cynnig i:

- Addasu pen isaf ystod oedran disgyblion Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas o 4 i 3, a hynny'n cynnwys ychwanegu dosbarth meithrin newydd â 48 o leoedd rhan-amser o fis Medi 2021;
- Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas o 126 o leoedd i 210 o leoedd o fis Medi 2021;
- Byddai'r cynnig yn sicrhau bod Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas yn gallu ateb y galw uwch am leoedd yn yr ysgol o ganlyniad i ddatblygiadau tai newydd yn y dalgylch a byddai'n mynd i'r afael â materion o ran cyflwr ac addasrwydd yr adeiladau presennol;
- Byddai sefydlu darpariaeth feithrin yn datblygu parhad a dilyniant yn nysgu'r plant o 3 oed;
- Roedd Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas wedi'i chynnwys fel rhan o Fand B yn Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor gyda'r bwriad i greu ysgol gynradd newydd â 210 o leoedd a'i chwblhau erbyn mis Medi 2021;
- Byddai adborth a gafwyd trwy gydol y cyfnod ymgynghori'n cael ei gyflwyno i'r Cabinet er mwyn iddo'i ystyried ym mis Mehefin 2019.

Roedd dyletswydd statudol ar y Cyngor i adolygu nifer yr ysgolion a'r math o ysgolion yn yr ardal a gwneud y defnydd gorau o adnoddau i godi safonau mewn ysgolion. Roedd dyletswydd statudol ar y Cyngor hefyd i sicrhau digon o leoedd mewn ysgolion yn ei ardal i ateb y galw am leoedd mewn ysgolion yn y presennol a'r dyfodol yn unol â strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Roedd yn ofynnol ehangu ysgolion a datblygu ysgolion newydd lle'r oedd diffyg lleoedd mewn ysgolion, yn y presennol a'r dyfodol, i ateb y galw am leoedd mewn ysgolion Cymraeg, Saesneg ac enwadol. Gall hyn godi oherwydd datblygiadau tai ar raddfa fawr sydd yn yr arfaeth ar gyfer ardal, galw uwch a newidiadau i ddewis rhieni lle mae addysg yn y cwestiwn.

Er mwyn sicrhau bod Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas yn gallu ateb y galw am addysg a ragwelir yn y dyfodol, byddai angen i'w gapasiti gynyddu.

Roedd yr adroddiad yn nodi bod gan adeilad presennol yr ysgol gapasiti o 126 o leoedd ond bod 128 o ddisgyblion ar y gofrestr fel a nodir isod.

Ysgol	Math o Ysgol	Categori iaith	Nifer derbyn	Capasiti'r ysgol	Nifer ar y gofrestr	Ystod oedran
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas	Ysgol Wirfoddol a Reolir	Saesneg	18	126	128	4 - 11

Roedd y tabl yn dangos bod y galw am leoedd ysgol yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas ar hyn o bryd yn uwch na'r capasiti presennol a oedd yn golygu nad oedd capasiti i dderbyn disgyblion ychwanegol a fyddai'n deillio o'r datblygiadau tai newydd.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau mai'r farn felly oedd mai adeilad â 210 o leoedd oedd y maint lleiaf o safbwynt effeithlonrwydd a chynaliadwyedd ac y byddai ysgol â 210 o leoedd yn gallu derbyn y cynnydd rhagamcanol yn niferoedd y disgyblion a fyddai'n deillio o'r datblygiadau tai newydd. Nid oedd Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas yn cynnig darpariaeth feithrin ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau'r adeilad presennol.

Cynigiwyd fod 48 o leoedd meithrin rhan-amser yn cael eu darparu i ddatblygu parhad a dilyniant yn nysgu'r plant o 3 oed. Byddai hyn yn sicrhau bod dull cyson o gynllunio a darparu'r Cyfnod Sylfaen (Meithrin i Flwyddyn 2).

Adeilad â chladin pren oedd adeilad Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas a oedd wedi'i gategoreiddio fel adeilad yr oedd ei gyflwr a'i addasrwydd yn wael. Roedd hyn yn golygu bod gan yr ysgol ddiffygion mawr a bod hyn yn effeithio'n anffafriol ar ddulliau addysgu. Ni fyddai'n bosibl adnewyddu'r ardaloedd addysgu i gyrraedd safonau'r 21ain Ganrif yn llawn.

Roedd yr ysgol wedi'i rhannu dros ddau safle gyda disgyblion y Dosbarth Derbyn yn gorfod cerdded i adeilad cyfagos yr "Hen Ysgol" ar ôl gwasanaeth y bore. Nid oedd llwybr o gwbl ar hyd y darn hwn o ffordd. Roedd meintiau'r ystafelloedd dosbarth yn anghyson drwy'r adeilad hefyd. Ar hyn o bryd roedd 72 o blant yn cael eu haddysgu ar draws dwy ystafell ddosbarth.

Felly roedd Sain Nicolas wedi cael ei chynnwys fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor a byddai ysgol newydd â 210 o leoedd yn cael ei hadeiladu ar safle presennol yr ysgol. Rhagwelid y byddai adeilad newydd yr ysgol yn agor erbyn mis Medi 2021.

Yn dilyn ymholiad pa un a oedd unrhyw ymgynghori wedi digwydd yng ngoleuni'r datblygiadau newydd ar gyfer Sain Nicolas a Thresimwn ac a oedd gan yr adran wybodaeth hefyd i ble'r oedd y plant a oedd yn mynd i'r ysgol yn byw, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod darpariaethau ac amcanestyniadau wedi cael eu cymryd i ystyriaeth ac y daethpwyd i'r casgliad bod digon o alw am leoliadau'r Eglwys yng Nghymru a bod rhywfaint o leoedd gwag. Roedd nifer sylweddol o ddisgyblion a

oedd yn mynychu'r ysgol o'r tu allan i'r ardal leol ac unwaith yr oeddent yn cael eu derbyn, roeddent ar gofrestr yr ysgol.

Wrth gyfeirio at y lleoliad a pharcio ar y safle, hysbyswyd y Cadeirydd y byddai'r adran yn ceisio gosod cylchoedd troi ar y safle. Byddai'r mater o ran disgyblion yn cerdded o un safle i'r llall ar hyn o bryd yn cael ei ddatrys gan y cynigion newydd hefyd.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor Craffu yn unfrydol fel a ganlyn

ARGYMHELLWYD – F O D y cynigion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo.

Rheswm dros yr argymhelliad

O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.